

Diogelu Data a Phreifatrwydd: Gwybodaeth a ddarperir o dan Erthyglau 13 a 14 (GDPR): Darpar fabwysiadwyr

Pwy yw Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS)?

Mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) yn gydweithrediad o bum asiantaeth fabwysiadu awdurdod lleol, Blaenau Gwent, Torfaen, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy.

Rydym yn cyflawni dyletswyddau cyfreithiol fel Gwasanaeth Mabwysiadu ar ran y pum awdurdod lleol a hefyd yn darparu ystod o wasanaethau sy'n ymwneud â mabwysiadu.

Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol

Gan mai Blaenau Gwent yw'r sefydliad cynnal ar gyfer SEWAS, am ragor o wybodaeth am sut mae Blaenau Gwent yn defnyddio'ch data personol, gan gynnwys eich hawliau fel testun data, gweler ein [hysbysiad preifatrwydd](#) corfforaethol ar ein gwefan.

Gwybodaeth Preifatrwydd Ychwanegol

Mae'r wybodaeth ganlynol yn wybodaeth ychwanegol sy'n benodol i'r modd y mae Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS) yn defnyddio'ch gwybodaeth bersonol.

Manylion Cyswllt SEWAS

Ein cyfeiriad post yw:
Gwasanaeth Mabwysiadu De-ddwyrain Cymru (SEWAS)
Adain y Gogledd, 2il Lawr
Bloc B, Tŷ Mamhilad
Ystâd Parc Mamhilad
Pont-y-pŵl
Torfaen
NP4 0HZ

Gellir cysylltu â ni ar: - 01495 355766 neu e-bost: adoption@blaenau-gwent.gov.uk

Ymdrinnir â materion o ran sut mae data'n cael ei drin gan Swyddog Diogelu Data Cyngor Blaenau Gwent y gellir cysylltu â hwy trwy e-bost:

DataProtection@blaenau-gwent.gov.uk

Pam mae angen gwybodaeth bersonol ar SEWAS?

Ein prif weithgaredd yw gwirio a yw pobl a hoffai fabwysiadu plentyn yn addas i fod yn fabwysiadwyr. Er mwyn gwneud hyn, mae'n rhaid i ni gasglu llawer o wybodaeth bersonol am y mabwysiadwyr posibl a'r bobl sydd wedi bod yn bwysig yn eu bywydau. Mae hyn oherwydd bod y cyfreithiau sy'n ymwneud â mabwysiadu yn golygu bod yn rhaid inni wirio'n drylwyr.

Yn ogystal ag asesu mabwysiadwyr, rydym hefyd yn gweithio gydag ystod o bobl sy'n cael eu heffeithio gan fabwysiadu ac ar adegau bydd angen cael gwybodaeth bersonol ganddynt. Er enghraifft, rydym yn derbyn ceisiadau am gymorth ôl-fabwysiadu a'r cynllun 'blwch llythyrau'. Nid oes angen cymaint o wybodaeth bersonol ar y rhain fel y broses fabwysiadu ei hun, ond bydd angen inni gael rhywfaint o wybodaeth bersonol gyfyngedig.

Pa wybodaeth a gesglir?

Darparwyr Fabwysiadwyr

Mae SEWAS yn casglu gwybodaeth bersonol am ddarpar fabwysiadwyr oddi wrthynt eu hunain a chan ystod o bobl yn eu bywydau, fel ffrindiau, teulu, cyn-bartneriaid a chanolwyr. Cesglir gwybodaeth ychwanegol gan sefydliadau perthnasol, yn dibynnu ar amgylchiadau darpar fabwysiadwr, fel meddygon teulu, ymgynghorwyr ac awdurdodau lleol eraill lle mae'r ymgeiswyr wedi byw.

Yn y cyfnod cynnar o asesu addasrwydd, daw'r rhan fwyaf o wybodaeth oddi wrth y person eu hunain a'r ffynonellau maen nhw'n eu darparu.

Mae'r broses asesu yn raddol yn gofyn am fwy o wybodaeth ac yn y pen draw erbyn yr amser y gallwn wneud penderfyniad am ddarpar fabwysiadwr bydd angen i ni wybod am: -

- Eu hanes personol a pherthynas
- Eu hanes teuluol
- Eu hymwneud mewn unrhyw weithgaredd troseddol
- Eu hanes meddygol llawn
- Eu profiad fel rhiant (os yw'n berthnasol)
- Barn gyfrinachol pobl allweddol yn eu bywydau am eu potensial i fabwysiadu'n llwyddiannus.

Bydd angen i ni hefyd gael lefel debyg o fanylion am unrhyw un sy'n byw gyda'r darpar fabwysiadwyr.

Rydym yn cynghori darpar fabwysiadwyr i sicrhau bod pobl y maent yn byw

gyda hwy yn ymwybodol o'r math o wybodaeth sydd ei hangen cyn iddynt wneud cais i fabwysiadu.

A yw SEWAS yn gallu casglu'r wybodaeth hon?

Darpar Fabwysiadwyr

Mae SEWAS yn casglu gwybodaeth bersonol am ddarpar fabwysiadwyr oherwydd bod angen prosesu'r data personol hwn ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer awdurdod swyddogol y rheolwr. Gelwir hyn yn 'dasg gyhoeddus'.

Y deddfau penodol a ddilynwn yw: -

- Deddf Mabwysiadu 1976
- Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Cymru) 2005
- Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu (Panel a Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2012
- Rheoliadau Gwasanaethau Cefnogi Mabwysiadu (Awdurdod Lleol) (Cymru) 2005
- Cyfarwyddiadau Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (Trefniadau Mabwysiadu ar y Cyd) Cymru 2015

Rydym hefyd yn ystyried unrhyw ganllawiau perthnasol dilynol sy'n gysylltiedig â'r cyfreithiau hyn.

Pwy sy'n gweld y wybodaeth y mae SEWAS yn ei chasglu a'i chofnodi?

Darpar Fabwysiadwyr

Mae SEWAS yn defnyddio'r wybodaeth yn unig at y dibenion a nodir yn y gyfraith (gweler yr adran flaenorol). Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i Banel Mabwysiadu ystyried y wybodaeth asesu am ddarpar fabwysiadwr/fabwysiadwyr. Mae'r Panel Mabwysiadu yn cynnwys aelodau annibynnol yn ogystal ag aelodau cyflogedig. Mae ganddo gadeirydd annibynnol, aelodau annibynnol, mabwysiadwyr, oedolion sy'n mabwysiadu, gweithwyr cymdeithasol a chynghorwyr etholedig.

Mae'r wybodaeth a welir gan y Panel Mabwysiadu wedi'i ddiogelu'n drwm gyda mesurau diogelwch arbennig a ddefnyddir i sicrhau nad oes unrhyw un arall yn gallu gweld gwybodaeth.

Mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn y gall unrhyw un arall gael mynediad at y wybodaeth a gedwir andanoch chi a dim ond pan esbonir yr amgylchiadau hyn yn y ddeddfwriaeth fabwysiadu berthnasol, fel arolygwyr gofal a benodwyd gan Gofal yng Nghymru neu Gomisiynydd Plant Cymru.

Bydd gan ddarpar fabwysiadwyr fynediad i Ran 1 o'r Adroddiad Mabwysiadu. Nid oes ganddynt unrhyw hawl mynediad i Ran 2 o'r Adroddiad hwnnw gan ei fod yn cynnwys y geiradaon annibynnol cyfrinachol.

Cyn y Panel cymeradwyo, mae'r dasg o ddod o hyd i deuluoedd yn dechrau. Pan nodir cyswllt posibl, rhennir yr adroddiad gorffenedig yn ddiogel gyda'r asiantaeth fabwysiadu a fydd yn darllen yr adroddiad ac yn ystyried y cyswllt. Defnyddir yr adroddiad yn unig gan yr asiantaeth fabwysiadu at ddibenion ystyried y cyswllt hwnnw.

Beth yw fy hawliau dros y wybodaeth bersonol sydd gennych andanaf?

Mae'r GDPR yn darparu cyfres o hawliau i ddinasyddion o ran eu gwybodaeth bersonol. Fodd bynnag, mae Erthygl GDPR23 hefyd yn darparu i'r hawliau hynny gael eu haddasu gan y llywodraeth pan fyddant yn ystyried bod angen ymagwedd wahanol er budd y cyhoedd.

Caiff yr hawliau canlynol eu haddasu gan y ffaith bod WBAS yn prosesu gwybodaeth fabwysiadu fel tasg gyhoeddus: -

Hawliau'r Dinesydd GDPR	Yn berthnasol?	Nodiadau
Yr hawl i gael mynediad at ddata	Na	Yn achos cofnodion mabwysiadu, mae Atodlen 4 Deddf Diogelu Data 2018 yn egluro bod unrhyw wybodaeth a gasglwyd o dan y ddeddfwriaeth fabwysiadu wedi'i heithrio o Erthygl 15 y GDPR. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid i WBAS ddarparu mynediad i gynnwys unrhyw ddeunydd a gasglwyd neu a baratowyd o fewn y broses fabwysiadu.
Yr hawl i ddileu	Efallai	Ystyrir pob cais yn unigol. Mae'r gyfraith yn caniatáu gwrthod lle byddai cydymffurfio yn gyfreithlon ac ni fyddai'n rhagfarnu cyflwyno'r gwasanaeth.
Yr hawl i gywiro anghywirdebau	Efallai	Ystyrir pob cais yn unigol. Mae'r gyfraith yn caniatáu gwrthod lle byddai cydymffurfio yn gyfreithlon ac ni fyddai'n rhagfarnu cyflwyno'r gwasanaeth.

Yr hawl i gyfyngu prosesu	Efallai	Ystyrir pob cais yn unigol. Mae'r gyfraith yn caniatáu gwrthod lle byddai cydymffurfio yn gyfreithlon ac ni fyddai'n rhagfarnu cyflwyno'r gwasanaeth.
Yr hawl i wrthwynebu prosesu	Efallai	Nid ydym yn defnyddio unrhyw brosesau gwneud penderfyniadau awtomataidd. Ystyrir pob cais yn unigol. Mae'r gyfraith yn caniatáu gwrthod lle byddai cydymffurfio yn gyfreithlon ac ni fyddai'n rhagfarnu cyflwyno'r gwasanaeth.
Yr hawl i gludo data	Na	Nid yw'r hawl hon yn berthnasol i unrhyw ddata tasg gyhoeddus.

Gwybodaeth berthnasol bellach

Cedwir gwybodaeth am fabwysiadwyr sy'n cael eu cymeradwyo am 35 mlynedd. Ac mae ymholiad nad yw'n parhau yn cael ei gadw am 15 mlynedd. Cedwir gwybodaeth am blant am 100 mlynedd.

Mae mynediad at gofnodion mabwysiadu unigolyn ei hun trwy ddarpariaethau'r ddeddfwriaeth fabwysiadu. Ni all person gael mynediad i'w cofnodion mabwysiadu gan ddefnyddio hawliau Erthygl 15 y GDPR neu hawliau mynediad at ddata gan y testun o dan y Ddeddf Diogelu Data.

Sut ydw i'n cwyno am sut mae SEWAS yn delio â'm gwybodaeth bersonol?

Gallwch gwyno i SEWAS yn uniongyrchol, neu gallwch gysylltu â Swyddog Diogelu Data Cyngor Blaenau Gwent.

Beth os ydw i'n dal yn anhapus?

Gallwch ddarganfod mwy am eich hawliau data personol trwy fynd i wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn <https://ico.org.uk/your-data-matters/>.

Am gyngor annibynnol pellach ynglŷn â diogelu data, a'ch hawliau data personol, gallwch gysylltu â:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth - Cymru
2il Lawr, Churchill House
Ffordd Churchill
Caerdydd

CF10 2HH

Ffôn: 02920 678400 Ffacs: 02920 678399

E-bost: Wales@ico.gov.uk

Gwefan: <https://ico.org.uk/>